Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Rhosgadfan
Rhosgadfan
Caernarfon
Gwynedd
LL54 7EU

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/08/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Rhosgadafan ym mhentref Rhosgadfan ger tref Caernarfon yng Ngwynedd ac yn gwasanaethu’r pentref a’r ardal wledig gyfagos. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a’r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw oddeutu 68% o’r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg, a does yr un disgybl o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i’r ysgol yn amser llawn yn ystod y tymor maent yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 47 o ddisgyblion ar y gofrestr gan gynnwys pump yn y dosbarth meithrin. Fe’u haddysgir gan ddau athro amser llawn.

Mae oddeutu 24% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy’n uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 49% o’r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae’r ffigwr hwn yn sylweddol uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2010. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Rhosgadfan yn 2016-2017 yn £4,608. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,809. Mae Ysgol Gynradd Rhosgadfan yn y 24ain safle allan o'r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- bron pob disgybl yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- medrau darllen llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n briodol
- rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau eu gwersi, yn frwdfrydig ac yn ymateb i, ac yn canolbwyntio'n briodol ar, eu tasgau
- ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda

Fodd bynnag:

- nid yw medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws yr ysgol, ac ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2, yn ddigon cadarn
- nid yw'r cynllunio ar draws yr ysgol yn cynnig dilyniant a pharhad mewn dysgu nac yn bodloni gofynion y cwricwlwm yn llawn
- nid yw gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw dogfennaeth statudol yr ysgol i gyd yn ei lle ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd
- nid yw'r trefniadau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni gofynion y côd ymarfer
- nid yw'r holl strategaethau sydd ar waith wedi ymsefydlu'n ddigon cadarn, fel datblygu'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen a threfniadau asesu ar gyfer dysgu
- nid yw'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol wrth gyflwyno mentrau er mwyn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd, TGCh ac asesu ar gyfer dysgu
- nid yw'r ysgol wedi gweithredu'n briodol ac argymhellion yr arolygiad blaenorol
- nid yw athrawon yn defnyddio gwybodaeth cymedroli i sicrhau dealltwriaeth glir o'r safonau a ddisgwylir

Fodd bynnag, mae'r:

- pennaeth a'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i greu ethos cartrefol a chynhwysol ar gyfer y disgyblion
- corff llywodraethol yn gefnogol ac ymroddgar ac yn dechrau datblygu eu rôl er mwyn gosod cyfeiriad strategol i'r ysgol a herio perfformiad
- ysgol yn dechrau datblygu'n gymuned ddysgu briodol ac yn cydweithio'n achlysurol ag ysgolion eraill i ddatblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a chodi safonau llythrennedd

## Argymhellion

A1 Gwella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2

A2 Gwella medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws yr ysgol ac ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn cynnig dilyniant a pharhad mewn dysgu a bodloni gofynion y cwricwlwm yn llawn, gan gynnwys maes llafur addysg grefyddol

A4 Sicrhau bod y cynllunio a'r addysgu yn darparu tasgau heriol i ymateb i anghenion pob disgybl

A5 Sicrhau bod trefniadau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni gofynion y côd ymarfer

A6 Sicrhau bod arweinwyr yr ysgol yn gweithredu'n fwy effeithiol wrth osod cyfeiriad strategol a monitro blaenoriaethau ar gyfer gwelliant

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau sylfaenol sy'n is na'r disgwyl. Mae mwyafrif y disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd boddhaol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda gan ddefnyddio'r wybodaeth yn briodol i ddatblygu medrau newydd.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol ac, erbyn diwedd y cyfnod, maent yn siarad yn gynyddol gywir a hyderus. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau gan athrawon ac oedolion eraill, gyda'r rhan fwyaf ar frig yr ysgol yn cynnal sgyrsiau diddorol ac aeddfed. Mae'r rhan fwyaf yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth yn hyderus a deallus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn hyderus ddwyieithog.

Mae medrau darllen llawer o'r disgyblion yn datblygu'n briodol ac yn unol â'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn fwyfwy rhugl ac yn ailadrodd storïau'n hyderus. Maent yn trafod eu llyfrau yn synhwyrol ac yn dangos gwybodaeth gynyddol am wahanol gyfrolau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn gywir a rhugl, gyda dealltwriaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn trafod y prif ddigwyddiadau a chymeriadau o'u llyfrau yn wybodus. Mae gan y rhan fwyaf wybodaeth am ystod o lyfrau ac awduron gwahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn defnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol i ddarganfod gwybodaeth i gefnogi eu gwaith dosbarth, er enghraifft wrth ymchwilio i fywyd a gwaith Kate Roberts.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o'r disgyblion wedi gwella'n sylweddol yn ddiweddar. Maent yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu cerdyn post o Affrica. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n ddiddorol mewn ystod briodol o ffurfiau. Maent yn ysgrifennu darnau estynedig amrywiol, er enghraifft stori Mr.Grinling ac mae eu medrau ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n briodol wrth ysgrifennu llythyrau synhwyrol a doniol o ddiolch yn dilyn ymweliad â Moelfre. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ysgrifennu'n ddychmygus mewn amrywiaeth o ffurfiau gan ddatblygu eu syniadau'n ddiddorol. Gallant drosglwyddo'u medrau yn effeithiol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft ysgrifennu cerddi diddorol ar ffurf Haiku am y Pabi Coch yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Fodd bynnag, prin yw gwaith ysgrifennu estynedig yn Saesneg a defnyddio paragraffau yn effeithiol. Nid yw'r disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhif yn briodol mewn gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu a

lluosi syml yn dda.  Mae'r mwyafrif yn datblygu dealltwriaeth gadarn o amser analog i'r awr, hanner a chwarter awr ac yn cymhwyso'r medr hwn mewn tasgau trawsgwricwlaidd.  Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn bwrpasol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft drwy amcangyfrif pwysau mewn arbrawf gwyddonol yn ymwneud â suddo ac arnofio.  Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio offer ac unedau mesur safonol yn gymwys erbyn diwedd blwyddyn 2.

Yng nghyfnod allweddol 2, lleiafrif o ddisgyblion sydd â gafael ar fedrau rhifedd priodol i'w hoed.  Maent yn eithaf hyderus wrth ddefnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi, wrth ddatrys problemau geiriol a phroblemau rhesymu rhif.  Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm.  Mae llawer yn trin ffracsiynau, degolion a chanrannau yn ddeallus ond nid yw'r disgyblion mwy abl yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.  Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn trin a thrafod data yn briodol ac yn creu graffiau llinell a diagramau Venn i gyflwyno eu canfyddiadau, er enghraifft mewn gwyddoniaeth, ond yn aml nid ydynt yn cyflwyno eu graffiau yn glir drwy gynnwys teitl a labelu'r echelinau.

Nid yw dealltwriaeth disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 o'r camau angenrheidiol i gynnal arbrawf gwyddonol yn gadarn, ac nid yw'r disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y dylent.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau gwneud defnydd addas o'u medrau TGCh i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm.  Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni priodol er mwyn cyflwyno gwybodaeth fel creu ffeil ffeithiau am longddrylliad y 'Royal Charter.'  Maent yn creu lluniau effeithiol ac yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n llwyddiannus i ysgrifennu brawddeg i gyd-fynd â'r llun.  Mae mwyafrif yn dechrau rheoli tegan 'Elfed Eliffant' drwy roi cyfarwyddiadau cywir iddo gael hyd i'w wely.  Mae llawer yn dechrau defnyddio llechi masnachol yn llwyddiannus i gofnodi eu gwaith.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn foddhaol drwy gyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd diddorol gan ddefnyddio amrywiaeth o raglenni cyhoeddi a phrosesu geiriau, er enghraifft i greu pwynt pŵer am y planedau.  Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio rhaglenni data syml i drin a chyflwyno graffiau yn llwyddiannus.  Fodd bynnag, nid ydynt yn dangos digon o ddealltwriaeth o ddefnyddio taenlenni mwy cymhleth.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglen e-bost syml i gyfathrebu â ffrind yn y dosbarth, ond nid ydynt yn arddangos medrau ymestynnol, er enghraifft ysgrifennu e-bost ffurfiol neu ychwanegu atodiadau.  Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth chwilio ar y we i ddarganfod gwybodaeth.  Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos dealltwriaeth gadarn o faterion e-ddiogelwch.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae nifer y disgyblion wedi bod yn isel (deg neu lai).  Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.  O ganlyniad, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ystyrlon wrth eu hystyried.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y cyfan, mewn iaith a mathemateg ar y deilliant disgwyliedig, wedi bod yn is o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y deilliant uwch mewn iaith ar y cyfan wedi bod yn uwch ond yn is mewn mathemateg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyfan wedi bod yn uwch nag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn Cymraeg, Saesneg wedi bod yn uwch nag ysgolion tebyg ond yn is mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon. Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd yn ddigon cadarn.

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini, ac maent yn cymryd rhan reolaidd yn y clwb 'cerdded cyflym'.

Mae safon ymddygiad bron pob disgybl yn uchel yn ystod y gwersi ac yn ystod amser egwyl. Dangosant barch a gofal at ei gilydd ac at oedolion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau eu gwersi, maent yn frwdfrydig ac yn ymateb a chanolbwyntio'n briodol ar eu tasgau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn deall pwrpas meini prawf llwyddiant ac yn dechrau dewis rhai eu hunain. Fodd bynnag, nid ydynt yn wybodus iawn wrth drafod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae aelodau'r cyngor ysgol ac eco yn frwdfrydig iawn ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned ysgol. Maent yn gweithio'n effeithlon ac yn dylanwadu ar benderfyniadau ar sut i wella amgylchedd yr ysgol, ac wedi creu llain wyllt i ddenu adar, plannu llysiau a ffrwythau ac annog cynaliadwyedd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn chwarae rhan mewn ystod o weithgareddau yn y gymuned, er enghraifft drwy gyfrannu at wasanaethau diolchgarwch, canu carolau ar Sul y cofio a chynnal cyngerdd Nadolig ar gyfer y gymuned leol. Maent yn cefnogi nifer o weithgareddau codi arian i elusennau fel 'Plant mewn Angen'.
Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cymdeithas leol a bod rhai yn llai ffodus na hwy.

Mae lefel presenoldeb mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf wedi bod yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, roedd presenoldeb y llynedd yn y 25% uchaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol sy'n bodloni mwyafrif o ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r

cynlluniau gwaith yn cynnig dilyniant a pharhad mewn dysgu a bodloni gofynion y cwricwlwm yn llawn, gan gynnwys maes llafur addysg grefyddol. Mae gwelliannau diweddar yng nghynllunio’r Cyfnod Sylfaen yn dechrau cael effaith gadarnhaol, fel datblygu medrau ysgrifennu disgyblion.

Mae’r cynlluniau gwaith yn rhoi sylw priodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, er nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn llyfrau gwaith y disgyblion. Anghyson yw’r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Saesneg a medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Nid yw medrau mathemateg, gwyddoniaeth a TGCh yng nghyfnod allweddol 2 yn cael eu hymestyn yn ddigon da, ac ar y cyfan, prin iawn yw’r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd e-ddiogelwch.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn dda. Caiff y disgyblion gyfleoedd i astudio gwaith nifer o artistiaid ac awduron o Gymru, gan gynnwys gwaith llên gwerin Kate Roberts. Maent yn dysgu hanesion enwogion Cymreig, fel Dewi Sant ac yn ymweld ag ardaloedd lleol. Mae cerddoriaeth gan artistiaid Cymraeg yn cael ei chwarae yn gyson o gwmpas yr ysgol ac mae staff yn hyrwyddo’r Gymraeg yn llwyddiannus gan annog y disgyblion i’w defnyddio fel cyfrwng cyfathrebu yn barhaus.

Mae’r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus trwy drefnu ymweliadau a gwahodd ymwelwyr i’r ysgol, er enghraifft mewn gweithdai gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae’r gweithgareddau allgyrsiol, fel ymweliad â chanolfan breswyl Rhyd Ddu, yn cyfrannu’n dda at brofiadau’r disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gyffredinol briodol o faterion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwyedd. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i’r holl ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ac ehangu eu gwybodaeth am fywyd mewn rhannau eraill o’r byd.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy’n meithrin ethos cyfeillgar a gofalgar. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol addas ac mae’r athrawon a’r cymorthyddion dysgu yn modelu iaith yn dda, sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygiad iaith lafar y disgyblion. Mae’r cymorthyddion yn cyfrannu’n effeithiol at ansawdd yr addysgu ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion er mwyn iddynt lwyddo yn eu gwaith.

Mewn llawer o'r gwersi, rhoddir cyfle priodol i’r disgyblion ddwyn i gof eu dysgu blaenorol a thrafod a gwella eu dealltwriaeth o feini prawf llwyddiant. Mae’r athrawon yn cwestiynu’n bwrpasol gan annog y disgyblion i ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau. Mae'r athrawon yn rhannu nodau gwersi yn gyson, ond yng nghyfnod allweddol 2, nid yw’r meini prawf llwyddiant bob amser yn cyd-fynd â’r dasg. Nid yw lefel yr her, a natur y tasgau, bob amser yn cyfateb yn ddigon da i anghenion disgyblion. Nid yw’r disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y dylent, yn enwedig mewn ysgrifennu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Ar y cyfan, mae athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion am ansawdd eu gwaith. Wrth farcio gwaith, er bod amrywiaeth o sylwadau sy’n clodfori gwaith y

disgyblion, ychydig sy’n rhoi arweiniad clir iddynt ar sut i wella eu gwaith. Oherwydd hyn, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn deall yn llawn yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion hunanasesu eu gwaith ysgrifennu.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno gweithdrefnau priodol i olrhain cynnydd y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw defnydd athrawon o ganfyddiadau'r gweithdrefnau hyn yn ddigon trylwyr i adnabod anghenion disgyblion a gosod targedau digon perthnasol a heriol iddynt.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob disgybl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn anfoddhaol. Nid oes systemau effeithiol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac i sicrhau cefnogaeth briodol. Mae rhaglen ymyrraeth wedi ei sefydlu yn ddiweddar, ond nid oes trefniadau effeithiol i sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Nid yw’r rhieni yn rhan lawn o’r broses o osod targedau yn unol â’r gofynion ac nid yw’r cynlluniau addysg unigol yn cael eu hadolygu na’u gwerthuso yn gyson. Nid yw’r ysgol yn bodloni gofynion statudol ar gyfer adolygu gofal disgyblion gyda datganiad.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a cymdeithasol disgyblion yn dda drwy gyfrwng gwasanaethau a chodi arian at elusennau, er enghraifft casglu arian i ddiwrnod trwyn coch ac ymchwil cancr y fron. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i wella dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau amrywiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed iach, ac ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw’n heini, er enghraifft y siop ffrwythau a gweithgareddau amser chwarae. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol ac mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn cefnogaeth a chynhaliaeth briodol. Mae swyddog o’r heddlu a nyrs ysgol yn ymwelwyr cyson ac yn cryfhau’r gefnogaeth a’r cymorth i’r ysgol ar faterion iechyd a diogelwch.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Nodwedd lwyddiannus o’r ysgol yw’r ethos teuluol sy’n bodoli ynddi. Mae’n gymuned gynhwysol, groesawgar, lle teimla’r disgyblion yn hapus a diogel.

Er nad oes cynllun cydraddoldeb cyfredol gan yr ysgol, mae pwyslais amlwg yng ngweithgareddau’r ysgol i sicrhau cyfle cyfartal. Mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio a dangos empathi a chydymdeimlo â thrigolion sy’n cael eu heffeithio gan drychinebau ar draws y byd. Fodd bynnag, mae’r ddarpariaeth ar gyfer hybu gwybodaeth am amrywiaeth hil a chrefydd yn anghyson.

Mae'r adeilad, yn dilyn atgyweirio diweddar, o ansawdd da a gwneir defnydd effeithiol ohono. Yn dilyn y difrod ar ôl storm ddechrau'r flwyddyn, nid oes modd defnyddio'r cae chwarae ar hyn o bryd. Mae'r iard chwarae, er ar dipyn o lethr, yn ddeniadol ar gyfer chwaraeon addysgol a hamdden. Mae ardal allanol y Cyfnod Sylfaen yn dechrau cael ei datblygu mewn modd creadigol i gyfoethogi profiadau dysgu i'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn meddu ar ystod dda o adnoddau dysgu sy'n briodol ar gyfer anghenion y disgyblion. Mae'r athrawon y darparu nifer o arddangosfeydd ar draws yr ysgol i gefnogi dysgu'r disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, prin iawn yw'r enghreifftiau o waith y disgyblion a gaiff eu harddangos.

Mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae glanweithdra o safon uchel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r pennaeth a'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i greu ethos cartrefol a chynhwysol ar gyfer y disgyblion. Mae'r staff yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae nifer o strategaethau diweddar bellach ar waith, fel datblygu'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen a threfniadau asesu ar gyfer dysgu ond nid ydynt hyd yma wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig o waith yr ysgol sydd angen eu gwella.

Mae diffygion amlwg yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion a threfniadau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn yr un modd, nid yw'r arweinyddiaeth wedi sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymestyn yn llawn ddisgyblion o bob gallu a sicrhau bod pob disgyblion yn cyflawni gorau y gallant. Nid yw'r agweddau hyn yn cael eu monitro'n briodol, ac o ganlyniad, nid yw'r ysgol yn ymwybodol o'r bylchau pwysig sy'n bodoli.

Nid yw'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd, TGCh ac asesu ar gyfer dysgu.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn weithredol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Fodd bynnag, nid oes gan bob aelod o staff swydd ddisgrifiad cyfredol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac ymroddgar. Maent yn dechrau datblygu eu rôl er mwyn gosod cyfeiriad strategol i'r ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt yn monitro targedau cynllun datblygu'r ysgol na dogfennaeth statudol yr ysgol yn briodol. Mae'r ymweliadau â'r ysgol yn ddiweddar i gynnal teithiau dysgu ac i graffu ar lyfrau, yn gwella eu hymwybyddiaeth o safonau gwaith disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn effeithiol wrth ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad, ansawdd y ddarpariaeth ac ansawdd yr arweinyddiaeth.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid oes gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu digon cadarn wedi eu seilio ar dystiolaeth ddibynadwy o'r addysgu, y dysgu a'r ddarpariaeth. O ganlyniad, nid yw trefniadau hunanarfarnu'r ysgol wedi arwain at welliannau arwyddocaol dros amser.

Nid yw'r ysgol wedi gweithredu'n briodol ar argymhellion yr arolygiad blaenorol. O ganlyniad, nid yw gweithredoedd arweinwyr wedi sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol sydd eu hangen i godi safonau a gwella'r ddarpariaeth.

Mae'n arferiad gan yr ysgol i ystyried barn rhieni trwy holiaduron rheolaidd. Fodd bynnag, oherwydd yr amgylchiadau diweddar, nid yw'r holl randdeiliaid wedi cael rhan weithredol yn y broses hunanarfarnu eleni. Mae'r llywodraethwyr wedi dechrau cael mewnbwn ar sail eu hadroddiadau yn dilyn ymweliadau â'r ysgol a chyfnodau craffu ar lyfrau, ond nid ydynt eto yn gadarn yn eu dellatwriaeth o gryfderau a diffygion yr ysgol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu cyfredol yn fanwl ac yn dechrau gwneud defnydd priodol o amyrwiaeth priodol o dystiolaeth. Erbyn hyn, mae'r meysydd i'w gwella yn cysylltu'n addas â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw effaith y camau gweithredol i'w gweld ar gyflawniad disgyblion a'r profiadau dysgu maent yn eu cael hyd yma.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n briodol at wella safonau a lles y disgyblion. Mae'r gymdeithas leol a chyfeillion yr ysgol wedi rhoi cefnogaeth arbennig drwy godi arian sylweddol i wella ansawdd yr adeilad yn diweddar ac i gyllido dodrefn ac adnoddau newydd.

Mae trefniadau pontio effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae'r cyswllt effeithiol sy'n bodoli gyda'r clwb lleol wedi sicrhau bod addysg y disgyblion yn parhau tra bu problemau gyda'r adeilad. Mae gan yr ysgol gysylltiad agos iawn â chanolfan gyfagos sydd yn rhoi cyfle i gynnal gwasanaethau achlysurol yn y gymuned a datblygu medrau ysbrydol a chymdeithasol y disgyblion.

Mae'r cydweithio sy'n bodoli gydag ysgolion y dalgylch yn fuddiol. Mae'r ysgolion yn derbyn hyfforddiant ar y cyd i godi safonau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion ac i safoni a chymedroli eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon effeithiol i sicrhau dealltwriaeth glir o'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddisgyblion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol yn yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg priodol ar y sefyllfa gyllidol ac mae gwariant yn cysylltu'n bwrpasol â thargedau a chynlluniau'r ysgol. Maent yn gwneud defnydd synhwyrol o'r grant amddifadedd ar gyfer targedu disgyblion anghenus.

Mae pob un o'r staff yn cael mynediad i gyfleoedd hyfforddiant. Mae hyn yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus ac yn gymorth i wella medrau penodol drwy'r ysgol, er enghraifft er mwyn hybu medrau darllen disgyblion.

Mae trefniadau pwrpasol ar gyfer darparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon a chymorthyddion y Cyfnod Sylfaen i gydweithio ar gynlluniau tymor byr. Mae'r uwch gymhorthydd a'r cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth effeithiol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu'n gymuned ddysgu briodol. Mae'n cydweithio'n achlysurol gydag ysgolion eraill cyfagos i ddatblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a chodi safonau llythrennedd disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cydweithio'n effeithiol yn ddiweddar i wella safonau llafaredd disgyblion.

Mae ystod amrywiol o adnoddau dysgu priodol yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Mae 'cyfeillion yr ysgol' wedi cyfrannu arian sylweddol eleni i brynu dodrefn newydd ar gyfer dosbarth y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ardal allanol yn cael ei defnyddio'n rheolaidd er mwyn hybu profiadau dysgu ac yn ysgogi disgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612098 - Ysgol Gynradd Rhosgadfan**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 47 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 16.3 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 5 | 7 | 8 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 80.0 | 71.4 | 87.5 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 3 | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 66.7 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 0.0 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 4 | 8 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 75.0 | 87.5 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 80.0 | 50.0 | 37.5 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 7 | 8 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 71.4 | 100.0 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.0 | 0.0 | 25.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 7 | 8 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 100.0 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | 57.1 | 37.5 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad cyfnod allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 21 | 21 100% | 0 0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 21 | 20 95% | 1 5% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 21 | 21 100% | 0 0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 21 | 21 100% | 0 0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 21 | 16 76% | 5 24% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 21 | 21 100% | 0 0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 21 | 21 100% | 0 0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 21 | 20 95% | 1 5% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 21 | 18 86% | 3 14% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 21 | 21 100% | 0 0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 21 | 9 43% | 12 57% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 20 | 16 80% | 4 20% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Jeremy George Turner | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Eleri Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Paul Carr | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.